**Pleidleisiau a Thrafodion dydd Mawrth, 13 Tachwedd 2001**

**Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm**

**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Atebwyd y 11 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 5 yn ôl.

**2.41pm**
**Datganiad gan y Prif Weinidog ar y ffrwydriad yn ffatri Corus ym Mhort Talbot**

**3.14pm**
**Datganiad Busnes: y Trefnydd**
Cynigiwyd y Datganiad Busnes. Roedd mwy na 10 o aelodau yn ei wrthwynebu ar sail Rheol Sefydlog 5.4. O'r herwydd, cynhaliwyd pleidlais ar y datganiad busnes:

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 28; Ymatal 1; Yn erbyn 23; Cyfanswm 52
Cytunwyd ar y datganiad busnes

**3.38pm**
**Pwynt o Drefn:**
Pwynt gan Rhodri Glyn Thomas ynghylch rhoi triniaeth gyfartal i'r Gymraeg, mewn dogfennau yn ymwneud â thrafodion y Cynulliad yn arbennig.

**3.39pm Atal Rheol Sefydlog**
*NDM834* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.4 yn penderfynu atal Rheol Sefydlog 6.3A mewn perthynas â chwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ar 29 Tachwedd i alluogi'r cwestiynau hynny i gael eu hateb ddydd Mawrth 27 Tachwedd 2001.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 40; Ymatal 1; Yn erbyn 9; Cyfanswm 50
**Derbyniwyd y cynnig gyda'r mwyafrif angenrheidiol o ddwy ran o dair**

**3.42pm**
**Diwygio Rheol Sefydlog 6.2**
*NDM831* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 46(6) Deddf

Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 34:

i. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Hydref 2001 ; ac
ii. Yn cymeradwyo'r newid canlynol i Reol Sefydlog 6.2

**Rheol Sefydlog 6.2**

Dileu'r ail frawddeg sy'n dechrau *"Os na fydd cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer diwrnod penodol……"* yn gyfan gwbl a rhoi yn ei lle:

"Os na fydd cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer amser penodol gall y Llywydd, ar gais y Prif Ysgrifennydd, gynnull y Cynulliad i ystyried mater brys sydd o bwys cyhoeddus."

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 51; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 51
**Derbyniwyd y cynnig gyda'r mwyafrif angenrheidiol o ddwy ran o dair**

**3.43pm**
**Dadl Plaid Leiafrifol: Plaid Cymru**
*NDM833* - Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn mynegi ei bryder dybryd ynghylch yr oedi sy'n parhau o ran delio â cheisiadau cyn lowyr a'u teuluoedd yng Nghymru am iawndal yn dilyn dyfarniad yr Uchel Lys ar 23 Ionawr 1998; yn gresynu at ddyraniad Cymru o dan Gronfa Adfywio'r Meysydd Glo sy'n llai o lawer na chyfraniad hanesyddol Cymru i ddiwydiant glo'r DU; ac yn galw ar Brif Weinidog Cymru i gyflwyno'r achos cryfaf posibl i lywodraeth y DU ynghylch yr anghyfiawnderau hyn, a hynny ar fyrder.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
**Gwelliant 1 - Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**
Dileu pob gair sy'n dilyn "Cynulliad Cenedlaethol" a rhoi'r canlynol yn eu lle:
"yn cydnabod pryderon ynghylch oedi wrth ymdrin â cheisiadau am iawndal gan gyn-lowyr a'u teuluoedd yng Nghymru, ond hefyd yn cydnabod fod camau breision wedi'u cymryd mewn cyfnod byr ers sefydlu'r Grwp Monitro sy'n ymdrin â cheisiadau am iawndal a bod bron i £100m wedi'i dalu i gyn-lowyr a'u teuluoedd yng Nghymru, ac yn edrych ymlaen at weld y mater yn cael ei setlo cyn gynted ag y bo modd."

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Dileu'r hanner colon ar ôl 1998 ac ychwanegu:
". Mae'n cydnabod bod y newidiadau parhaus gan Lywodraeth y DU ynghylch y cyfrifoldeb Gweinidogol dros y mater hwn wedi ychwanegu at yr oedi. At hynny mae"

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O Blaid 29; Ymatal 0; Yn erbyn 21; Cyfanswm 50
**Derbyniwyd Gwelliant 1**

**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**
O Blaid 26; Ymatal 13; Yn erbyn 12; Cyfanswm 51
**Derbyniwyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**4.39pm**
**Dadl Plaid Leiafrifol: Y Blaid Geidwadol**
*NDM832* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu canslo ar unwaith y prosiect i godi adeilad Siambr newydd y Cynulliad ac yn penderfynu rhoi'r arian a arbedir i gyllideb iechyd y Cynulliad.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 9; Ymatal 0; Yn erbyn 40; Cyfanswm 49
**Gwrthodwyd y cynnig**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.33pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05 am ddydd Iau, 15 Tachwedd 2001**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**Dogfennau a gyflwynwyd ar 12 Tachwedd 2001**

Amcangyfrif o incwm a threuliau Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2003-LD1102

Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Safonau Ymddygiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru – LD1099

Gorchymyn Consesiynau Teithio (Estyn yr Hawl i'w cael) (Cymru) 2001- Memorandum O Gywiriadau-LD1098

Rheoliadau Consesiynau Teithio Gorfodol (Trefniadau Ad-dalu) (Cymru) 2001- Memorandwm O Gywiriadau-LD1097

Y Comisiwn Digartrefedd Adrddiad i'r Gweinidog Dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau-Awst 2001-LD1096

## Adroddiadau'r Pwyllgor Deddfau

**Dogfennau a gyflwynwyd ar 13 Tachwedd 2001**

LC360: Gorchymyn Hysbysu ynghylch Tatws sy'n Deillio o'r Almaen (Cymru) (Rhif 2) 2001 - LD1101